# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2021.

Mae-r Cyngor Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Robert Crowley, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams a Mark Wilson.

356 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

357 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Andrew R.T. Davies, Anthony Hampton, Dr. Ian Johnson a Marguerita Wright.

358 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

359 COFNODION –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 10 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

(2) CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir ar yr amod bod y nodyn ar waelod tudalen 53 yn cael ei ddileu oherwydd gwall gweinyddol.

Gwnaeth y Cynghorydd Vince Driscoll, gyda chaniatâd y Maer, ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus ôl-weithredol mewn perthynas â Chofnod Rhif 290 o gofnodion y cyfarfod ar 26 Gorffennaf, 2021 gan mai fe oedd Cyfarwyddwr y cwmni ar y pryd a oedd yn berchen ar 50 Heol Holltwn, Y Barri ac roedd un o'r tenantiaid wedi gwneud cais am Drwydded Palmant.

360 CYHOEDDIADAU –

(i) Gwnaeth y Maer y cyhoeddiadau a ganlyn:

Manteisiodd y Maer ar y cyfle i ddweud ei bod wedi cyflawni nifer o ddyletswyddau ers y cyfarfod diwethaf, fel a ganlyn:

- llofnodi'r Datganiad Cyngor Amrywiol ar y cyd â'r Dirprwy Faer, yr Arweinydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr
- mynd i ddathliad pen-blwydd 100 oed yn y Barri
- mynd i ddigwyddiad grŵp cerdded yn Llanilltud Fawr
- mynd i noson cyflwyniad Cymdeithas yr Awyrlu Brenhinol
- ymweliad â Diwrnod y Gwasanaethau Brys a sesiwn tynnu lluniau
- digwyddiad codi baner y Llynges Fasnachol yn y Swyddfeydd Dinesig, ac
- ar ôl mynd i seremoni rithiol i agor Cartref Nyrsio Bellavista ychydig fisoedd cyn hynny, cynnal ymweliad gwirioneddol â phreswylwyr y cartref nyrsio ddydd Llun, 6 Medi, 2021.

(ii) Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio y cyhoeddiad canlynol:

Roedd Gwobrau Go y DU yn adlewyrchu'r gorau ym maes caffael cyhoeddus, ac roedd hi'n bleser o'r mwyaf i'r Aelod Cabinet hysbysu'r Cyngor, yn dilyn ei lwyddiant yng ngwobrau Go Cymru, fod tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor wedi dod yn fuddugol ar lwyfan y DU am gyflawni Gwerth Cymdeithasol, fel cyfleoedd cyflogaeth, gweithgareddau cymunedol a gweithgareddau amgylcheddol, a chontractau i fusnesau lleol.

Roedd hon yn wobr hynod haeddiannol i dîm a oedd wedi mynd uwchlaw a thu hwnt i'w ddyletswydd, wrth gyflenwi rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gwerth £136 miliwn, yn aml gan fynd mor bell â threblu'r targedau uchelgeisiol a osodwyd ganddynt ar gyfer Buddion Cymunedol. Ymhen ychydig dros ddwy flynedd, roedd 82% o'r gwariant ar waith adeiladu wedi'i wario yng Nghymru; 85% o'r gweithlu yn dod o Gymru; 48% yn dod o ardal y cod post; 154 o swyddi amser llawn wedi'u creu; 86 o brentisiaethau; 99% o wastraff wedi'i wyro o safleoedd tirlenwi; a 47 o fentrau cymunedol wedi'u cefnogi.

Wrth longyfarch y tîm, diolchodd y Dirprwy Arweinydd hefyd i bartneriaid ISG, Bouygues, Morgan Sindall ac Aecom am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad at nodau uchelgeisiol y Cyngor.

(iii) Gyda chaniatâd i siarad, manteisiodd y Cynghorydd Gwyn John ar y cyfle i ddiolch i'r holl Aelodau a'r Swyddogion am eu negeseuon a'u cydymdeimlad ar ôl iddo golli ei wraig, Gloria.

361 ADOLYGIAD O GYFANSODDIAD Y CYNGOR (RG) –

Gofynnodd yr Arweinydd am gymeradwyaeth y Cyngor, yn unol â'r cyfeiriad yn yr adroddiad, i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor o ran y canlynol:

- Ehangu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr i roi awdurdod dirprwyol i benodi mwy nag un Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan ddaw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i rym ar 5 Mai, 2022; ac

- Diwygio, ar 5 Mai, 2022 Adran 9 ac 13 o Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn adlewyrchu'r gofynion yn A116-A118 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, er mwyn cyfeirio at y ffaith bod y Pwyllgor yn cynnwys deuparth o Aelodau a thraean o aelodau lleyg, a bod yn rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan aelod lleyg, ac na chaiff yr Is-gadeirydd fod yn aelod o'r Weithrediaeth (Cabinet) nac yn gynorthwyydd i'r Weithrediaeth.

Yn dilyn trafodaethau â'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn gysylltiedig â'r broses o recriwtio/benodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, roedd angen cynnwys argymhelliad ychwanegol yn gysylltiedig â Chyfansoddiad y Pwyllgor yn y dyfodol, a oedd wedi'i rannu ar ffurf gwybodaeth atodol cyn y cyfarfod.

Dywedodd yr Arweinydd fod angen hyn hefyd oherwydd amseriad y broses benodi uchod, yr oedd CLILC yn argymell y dylai pob Cyngor ledled Cymru ei chychwyn o ddechrau mis Hydref 2021.

Roedd yr wybodaeth atodol a oedd wedi cael ei hanfon ymlaen cyn y cyfarfod yn manylu ar argymhelliad pellach yn gysylltiedig â chyfansoddiad y Pwyllgor, er mwyn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol yr ymraniad deuparth (Aelodau Etholedig) a thraean (Aelodau Lleyg). Nodwyd bod cyfansoddiad cyfredol y Pwyllgor yn cynnwys ymraniad 7/1. Yn sgil yr ymarfer recriwtio y byddai angen ei gynnal yn fuan, cynigiodd yr Arweinydd y dylid diwygio cyfansoddiad y Pwyllgor yn y dyfodol i gynnwys 6 Aelod Etholedig a 3 Aelod Lleyg, ac y byddai hyn yn dod i rym o'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 202, gan na allai'r Pwyllgor gyfarfod yn gyfreithlon ar ôl mis Mai 202, onid oedd traean ei aelodaeth yn Aelodau Lleyg. Dywedodd yr Arweinydd na fyddai'r cynigion hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfrifiadau cydbwysedd/hawliau gwleidyddol cyfredol y Pleidiau perthnasol hyd fis Mai 2022.

PENDERFYNWYD –

(1) Cytuno y dylid diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr i adlewyrchu'r gofyniad i benodi mwy nag un Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o 5 Mai 2022, a diwygio Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

(2) Diwygio Adran 9 ac Adran 13 (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) Cyfansoddiad y Cyngor a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i adlewyrchu gofynion Adrannau 116-118 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i weithredu'r canlynol o 5 Mai, 2022:

- Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn berson lleyg;
- Ni ddylai'r Is-gadeirydd fod yn aelod o Weithrediaeth y Cyngor nac yn gynorthwy-ydd i'w Weithrediaeth;
- Rhaid i 2/3 o gyfansoddiad y Pwyllgor fod yn Aelodau a 1/3 yn Aelodau Lleyg.

(3) Diwygio cyfansoddiad yn y dyfodol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i 6 Aelod Etholedig a 3 Aelod Lleyg a ddylai ddod i rym ar ôl y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2022.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae Adran 116 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i 2/3 o gyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn Aelodau ac 1/3 yn Aelodau Lleyg o 5 Mai, 2022 ac er mwyn i'r broses recriwtio Aelodau Lleyg gael ei chynnal.

(2) Cydymffurfio â gofynion Adrannau 116-118 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(3) Cydymffurfio â Rhan 6 Pennod 2 "Gweithdrefnau ac Aelodaeth Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu", Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan sicrhau y bydd 2/3 o aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn Aelodau Lleyg.

362 ADRODDIAD BLYNYDDOL BRO MORGANNWG (CYNLLUN GWELLA RHAN II) 2020/21 (CAT) –

Dywedodd yr Arweinydd fod drafft o Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg yn amlinellu cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion gwella llesiant. Dywedodd yr Arweinydd hefyd nad oedd y cyfeiriad gan y Cabinet ar gael pan gafodd yr agenda ei anfon at yr holl Aelodau cyn y cyfarfod a'i uwchlwytho i wefan y Cyngor. Ni chyfeiriwyd yr Adroddiad Blynyddol i sylw'r holl Bwyllgorau Craffu oherwydd gofynion yn gysylltiedig â'r amserlen ddeddfwriaethol, ac roedd yn cael ei adrodd gerbron y Cyngor Llawn i'w ystyried, ac er mwyn penderfynu yn ei gylch. Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi nodi statws Ambr, ac roedd yn ystyried hynny'n rhesymol yng nghyd-destun pandemig Covid-19.

I gloi, achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i staff ar bob lefel o fewn y sefydliad am y gwaith aruthrol a wnaed hyd yma, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo adroddiad blynyddol drafft Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) 2020/21 (Atodiad A yr adroddiad).

(2) Cymeradwyo’r amserlen arfaethedig ar gyfer llunio a chyhoeddi hunanasesiad cyntaf y Cyngor dan y darpariaethau perfformiad newydd a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (paragraff 2.22-2.38 yr adroddiad).

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi adolygiad blynyddol o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Amcanion Lles (Gwella) erbyn 31 Hydref yn unol â'r amserlen statudol.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu blynyddol sy’n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

363 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.18 CYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn**

Tybed a all yr Aelod ddweud wrthyf am y cynnydd o fewn Addysg ar draws Bro Morgannwg, o ran paratoi a hwyluso i gyflwyno sgiliau achub bywyd i'r cwricwlwm. Hefyd, faint o'n hysgolion sydd â mynediad at ddiffibrilwyr a hyfforddiant i bawb?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio**

Roedd Ambiwlans Sant Ioan Cymru ar hyn o bryd yn cynnal hyfforddiant mewn ysgolion ledled Cymru, gan roi'r hyder a'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar blant er mwyn achub bywyd. Gallai disgyblion gymryd rhan naill ai drwy ymweliad ysgol lle'r oedd sesiynau 2 awr o hyd yn cael eu cynnal ar Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf neu Ymwybyddiaeth o Ddiffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus, neu drwy arddangosiadau yn ystod y gwasanaeth.

Gallai ysgolion hefyd gymryd yn y Cynllun Gwobrwyo Achubwyr Bywyd Ifanc a derbyn adnoddau addysgu a gwybodaeth am gymorth cyntaf a'i le yn y cwricwlwm, gan alluogi staff i gyflwyno sesiynau eu hunain.

Roedd cynrychiolwyr o'r consortia addysg rhanbarthol wedi cyfarfod ag Ambiwlans Sant Ioan Cymru, Y Groes Goch Brydeinig a Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru i wrando am yr adnoddau yr oedd ganddynt i'w cynnig i ysgolion. Wrth drafod, canolbwyntiwyd ar Gwricwlwm Cymru a'r modd y gallai eu sefydliadau alinio eu gwaith yn ofalus â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r pedwar diben.

Yn dilyn datganiad i'r wasg yn gynharach yn y flwyddyn, roedd yr Aelod Cabinet yn rhagweld y byddai'r argymhellion yng Nghwricwlwm Cymru yn cael eu diwygio, ac y byddai bellach yn ofynnol i'r holl ysgolion yng Nghymru addysgu sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf o dan y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, roeddem yn dal i ddisgwyl manylion ynghylch hyn.

Roedd gwasanaeth 111 GIG Cymru yn darparu rhestr gynhwysfawr o leoliadau diffibrilwyr ar draws cymunedau, gan gynnwys nifer wedi'u lleoli mewn ysgolion yn y Fro. Ceir hyd i ragor o fanylion ar 111.wales.nhs.uk/.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn a fyddai'r Cyngor yn manteisio ar gynnig Ambiwlans Sant Ioan ac yn ymwreiddio hynny yn y cwricwlwm ysgolion. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad i'r wasg ar y mater, ond nad oedd unrhyw fanylion pellach wedi dod i law. Cyn gynted ag y byddai'r wybodaeth honno ar gael, byddai'n cael ei rhannu â'r cyhoedd.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn**

Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi archebu 30,000 o synwyryddion carbon deuocsid i ysgolion ledled Cymru er mwyn sicrhau trefniadau digonol i awyru ystafelloedd dosbarth gan anelu i leihau trosglwyddiad Covid. Pryd fydd ein hysgolion yn eu derbyn, a beth ydym ni'n ei wneud fel Awdurdod Lleol i sicrhau eu bod yn cael eu gosod yn ein hystafelloedd dosbarth ar draws y Fro?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio**

Roedd pob ysgol yn y Fro wedi cynnal asesiadau risg cynhwysfawr, gyda chefnogaeth tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor i leihau hyd yr eithaf y risg o drosglwyddo Covid-19. Byddai asesiadau risg yn parhau i esblygu wrth i sefyllfaoedd newid, ac arferion, protocolau diogelwch a thechnolegau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn seiliedig ar y cyngor a'r canllawiau gwyddonol y byddai'r Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y Cyngor wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi prynu dyfeisiau monitro carbon deuocsid ychwanegol, a disgwyliwyd y byddai'r rhain yn cael eu hanfon i'r Awdurdodau Lleol yn ystod mis Hydref i'w dosbarthu i'r ysgolion wedi hynny.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn beth fyddai paratoadau'r Cyngor, ac effaith hynny. Ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod yr holl ysgolion wedi cynnal asesiadau risg drwy gydol y pandemig, gan gynnwys awyru adeiladau, ac y byddai'n fuddiol derbyn y dyfeisiau monitro carbon wrth i'r gaeaf nesáu.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn**

A all yr Aelod roi'r newyddion diweddaraf imi ynghylch diwygio'r polisi 'arwyddion brown' cyfredol ar gyfer lletygarwch ar draws Bro Morgannwg.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y polisi arwyddion brown ar gyfer ymwelwyr yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Timau Priffyrdd a Thwristiaeth. Byddai adroddiad ar Bolisi diwygiedig yn cael ei ystyried yn fuan gan y Cabinet. Dywedodd yr Aelod Cabinet hefyd y byddai'n hapus ddweud wrth y Cynghorydd Nugent-Finn beth fyddai'r dyddiad tebygol ar gyfer hyn, ond ei fod ar fin digwydd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn am esboniad o'r gwahaniaeth rhwng trefnu arwyddion newydd ar gyfer meysydd parcio ac arwyddion lletygarwch. Ystyriai'r Aelod Cabinet fod y cwestiwn hwn yn un diddorol, a dywedodd fod adolygiad am gael ei gynnal yn fuan, ac y byddai'n sicrhau ymdriniaeth â'r mater gyda hyn.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn**

A allwch esbonio'r union gynlluniau y mae Awdurdod Lleol Bro Morgannwg wedi'u gwneud mewn ymateb i'r ymgyrch i adael Affganistan, y tai priodol sydd ar gael, y dull o fynd ati i ganfod eiddo gwag, cynllunio llety wrth dros dro, rhaglenni Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, dehonglwyr, yr effaith bosibl ar deuluoedd ac unigolion sydd ar restr aros yr argyfwng Tai ar hyn o bryd, a'r modd y bydd yr aelod yn cefnogi ac yn ymateb i weithwyr ein Lluoedd Arfog sy'n dychwelyd i Gymru, yn nhermau'r galw am dai, cymorth iechyd meddwl a chorfforol a setlo i mewn i fywyd dinesig.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Tai ac Adeiladu**

Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi addo darparu llety a chefnogaeth i ddau deulu yn syth wedi'r argyfwng yn Affganistan.

Roedd y sefyllfa'n hynod gymhleth ac yn datblygu'n gyflym, ac roedd yr Awdurdod wedi ymateb drwy weithio gyda'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i gynllunio ar gyfer anghenion teuluoedd a fyddai angen mynediad ar unwaith at dai, gofal iechyd a gwaith cynllunio a chefnogaeth arbenigol.

Roedd gan yr Awdurdod eisoes gontract ar waith â Chymdeithas Tai Taf i gyflenwi cefnogaeth integreiddio hanfodol drwy dîm o weithwyr achos hynod brofiadol, sy'n cynnwys darparu gwasanaeth cyfieithu a dehonglwyr lle bo angen er mwyn i bobl allu cyfathrebu pan fo angen.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Aelodau'n deall ac yn ymwybodol o'r pwysau difrifol ar y farchnad tai cymdeithasol ym Mro Morgannwg i liniaru'r effaith ar y cymunedau derbyn. Roedd y Cyngor yn cynnal trafodaethau â landlordiaid er mwyn

canfod llety rhent preifat fforddiadwy, gan gynnwys cartrefi a oedd wedi cael eu cynnig mewn ymateb i apêl diweddar yr Arweinydd ar Bro Radio. Roedd hi'n amlwg bod proses i'w dilyn er mwyn sicrhau bod y llety a oedd yn cael ei gynnig yn addas i deuluoedd bregus, ac yn bodloni eu hanghenion penodol, ond bu cynnydd cadarnhaol - roedd amryw o opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd, ac roedd yr Aelod Cabinet yn rhagweld y byddai'r rhain yn cael eu cynnig i'r Swyddfa Gartref yn yr wythnosau nesaf.

Byddai'r Cyngor wrth gwrs yn sicrhau bod unrhyw weithwyr yn dychwelyd o'r Lluoedd Arfog a oedd angen cymorth gan yr Awdurdod yn derbyn y cymorth angenrheidiol, yn unol ag ymrwymiadau'r Cyngor o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog.

**<u>Atodol</u>**

Holodd y Cynghorydd Nugent-Finn ynghylch nifer y teuluoedd, a dywedodd yr Aelod Cabinet fod dau deulu wedi'u cynnwys.

(v) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd JE Charles</u>**

Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau posibl yn sgil y tir halogedig, wrth godi adeilad newydd Ysgol Sant Baruc ar Lannau'r Barri?

**<u>Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio.</u>**

Cafodd y gwaith i ddatblygu'r ysgol newydd ei reoli gan y Rheolwyr Prosiect Whitehead Allen, a ddewiswyd gan Gonsortiwm Glannau'r Barri. Roedd y cwmni yn gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg. Roedd Tîm y Consortiwm wedi dewis y contractwr Galliford Try i adeiladu'r ysgol newydd.

Roedd gwaith adfer wedi'i gynllunio ar safle'r Ysgol, a byddai hynny'n cynnwys gosod 600mm o ddeunydd wynebu glân (450mm o isbridd a 150mm o uwchbridd) ar y caeau chwaraeon glaswelltog. Byddai profion yn cael eu cynnal o'r deunydd wynebu glân, ar ôl iddo gael ei gludo a'i osod ar y safle, a byddai adroddiad gwirio yn cael ei anfon i'r Cyngor fel bo modd bodloni'r amod cynllunio yn gysylltiedig â'r gwaith adfer i alluogi'r gwaith adeiladu.

Byddai'r Cyngor hefyd yn cynnal profion yn gysylltiedig â'r meini prawf derbyn gwastraff ar weddill y safle, gan gynnwys adeilad yr ysgol, y maes parcio, yr wynebau caled, ac ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd, ar ôl cwblhau gwaith galluogi a chyn trosglwyddo i Galliford Try.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Charles i'r Aelod Cabinet roi sicrwydd y byddai'r gwaith ar y tir yn ddiogel, ac i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw gamau a gymerir, gan gynnwys cael gwared â'r deunydd llenwi, yn achosi unrhyw risg i unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwaith, nac i unrhyw un a allai ddod i gysylltiad ag unrhyw ddeunydd halogedig ar ddamwain.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod cyfyngiadau cynllunio wedi'u gosod ar y datblygwyr, ac y byddai'n sicrhau y byddai'r wybodaeth fanwl honno ar gael i breswylwyr yn yr ardal. Ystyriai fod sylwadau'r Cynghorydd Charles yn anghywir, a'u bod yn ymgais bwriadol i ddychryn preswylwyr lleol.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd JE Charles**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf ynghylch ehangu trwyddedau parcio i breswylwyr yn unig, cadarnhau nifer y ceisiadau am drwydded sydd wedi dod i law hyd yma, a nifer y ceisiadau sy'n disgwyl cael eu prosesu.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig ar waith yn Ynys y Barri, The Knap, Cosmeston, Aberogwr a'r Bont-faen. Ar 14 Medi, 2021:

- 81.19% oedd canran gyffredinol y cartrefi a oedd yn gofyn am drwyddedau preswylydd yn y parthau preswyl newydd.
- Roedd 2,289 o drwyddedau newyddo 967 o gartrefi unigol wedi'u cyflwyno yn y parthau trwydded newydd.
- Nifer cyfartalog y trwyddedau preswylydd fesul aelwyd yn y parthau trwydded newydd oedd 2.37.

Ar 14 Medi 2021 roedd 8 cais yn weddill ar system y Cyngor, lle'r oedd y Cyngor yn disgwyl am ragor o wybodaeth gan yr ymgeiswyr.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Charles pa fesurau yr oedd y Cyngor wedi'u sefydlu i bwyso a mesur perfformiad y staff wrth ymdrin â thrwyddedau ar gyfer Parciau Gwledig, ac a fyddai'r preswylwyr yn cael eu had-dalu, er mwyn iddynt dalu mewn cyfarfodydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mai cyfrifoldeb ym mhortffolio Aelod Cabinet arall oedd Parciau Gwledig, ond o ran y materion a godwyd yn y cwestiwn gwreiddiol, ystyriai fod y 2,000 o drwyddedau a oedd wedi'u prosesu ers gweithredu'r drefn newydd yn dangos bod y system yn ymdrin â cheisiadau'n gyflym.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i glybiau chwaraeon ac adeiladau cyhoeddus er mwyn cynyddu'r nifer o ddiffibrilwyr sy'n achub bywyd, a mynediad atynt.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd diffibrilwyr wedi'u lleoli ym mhob un o Ganolfannau Hamdden Bro Morgannwg. Roedden nhw hefyd wedi'u gosod yn y prif adeiladau swyddfa

corfforaethol, y Swyddfeydd Dinesig, Swyddfeydd y Dociau a'r Alpau, a hefyd mewn safleoedd amrywiol yn y gymuned.

Roedd y Cyngor yn fawr eu cefnogaeth tuag at ymdrechion clybiau chwaraeon lleol a sefydliadau lleol, i osod diffibrilwyr mewn mwy o leoliadau yn y gymuned, lle gallai aelodau o'r cyhoedd gael mynediad atynt ar bob achlysur. I helpu gyda hyn, byddai'r Cyngor yn parhau i dalu'r costau gosod yn y lleoliadau hynny, fel yr oedd wedi gwneud yn y gorffennol. Yr enghraifft fwyaf diwethaf oedd Canolfan Gymuned Murchfield yn Ninas Powys, lle'r oedd y ddyfais wedi'i lleoli ar wal allanol, fel y gallai pawb gael mynediad ati mewn argyfwng.

Roedd swyddogion ar hyn o bryd yn ymchwilio i gyfleoedd i gyllido diffibrilwyr hygyrch i'r gymuned, mewn ymgais i ychwanegu mwy o ddyfeisiau eto at y rhwydwaith a oedd ar gael ar draws Bro Morgannwg.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Pa darged y mae'r Cyngor yn ei osod ar gyfer nifer y teuluoedd a'r unigolion o Affganistan, ac o wledydd eraill yr effeithiwyd arnynt gan ryfel, a fydd yn cael eu hailgartrefu a'u cefnogi yn y Fro yn (a) 2021/22 a (b) 2022/23?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Tai ac Adeiladu**

(a) Roedd yr Awdurdod Lleol wedi addo darparu llety a chefnogaeth i bedwar teulu o ffoaduriaid yn 2021/22, gan gynnwys dau drwy Gynllun Adsefydlu cyfredol y DU (UKRS) a dau arall o'r argyfwng cyfredol yn Affganistan (ARAP).

(b) Byddai'r Awdurdod yn ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol i bennu ei gapasiti i gymryd rhan yn y broses barhaus o adsefydlu ffoaduriaid yn 2022/2023, a byddai disgwyl iddo wneud addewid a fyddai'n gymesur â'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys tai fforddiadwy a lleoedd mewn ysgolion.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Beth yw'r amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036, a sut y bydd yn gyson â'r Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Yn hytrach nag esbonio'r amserlen, dywedodd yr Aelod Cabinet yr hoffai dynnu sylw'r Cynghorydd Johnson at yr adroddiad ar y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet ar 27 Medi, ac a oedd i gael ei gyhoeddi'r diwrnod canlynol ar ôl cyfarfod y Cyngor. Pe bai gan y Cynghorydd Johnson unrhyw gwestiynau ar ôl darllen yr adroddiad, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n fwy na pharod i'w hateb.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. IJ. Johnson**

Mae nifer o adeiladau'n bodoli mewn trefi fel y Barri sy'n chwarae rhan bwysig yn natblygiad y gymuned leol, ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon pwysig gan gyrff rheoleiddio i gael eu 'rhestru'. Pa bwerau sydd gan y Cyngor i sicrhau bod adeiladau o'r fath yn cael eu cadw er budd cenedlaethau'r dyfodol, yn hytrach na'u dymchwel?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Mabwysiadodd Cyngor Bro Morgannwg y rhestr 'Trysorau Sirol' yn 2007. Roedd y rhestr yn cynnwys asedau hanesyddol wedi'u dynodi'n statudol yn henebion rhestredig ac yn adeiladau rhestredig yn ogystal ag adeiladau wedi'u cydnabod yn adeiladau o werth lleol. Nid oedd cynnwys adeiladau wedi'u rhestru'n lleol ar y rhestr Trysorau Sirol yn cael unrhyw effaith uniongyrchol o ran y gyfraith, ac nid oeddent ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i unrhyw reolaethau cynllunio ychwanegol ynghylch addasu neu ddymchwel.

Gan amlaf, roedd dymchwel adeiladau heb eu rhestru ac adeiladau y tu allan i Ardaloedd Cadwraeth yn cael ei ganiatáu, o dan Ran 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y cafodd ei ddiwygio). Gellir defnyddio Erthygl 4 y Gorchymyn i'w gwneud hi'n ofynnol cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i ddymchwel adeilad heb ei restru y tu allan i ardal gadwraeth. Gallai iawndal fod yn daladwy yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio a wneir cyn pen 12 mis, gan ddechrau ar y dyddiad pan ddaeth y cyfarwyddyd i rym, lle gwrthodwyd y ceisiadau hynny.

Roedd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg yn cynnwys nifer o bolisïau perthnasol er mwyn gwarchod adeiladau a restrir yn lleol.

Yn ogystal â hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn hyderu y byddai'r Cynghorydd Johnson yn cytuno bod gan y Cyngor record ragorol o ailddefnyddio adeiladau hanesyddol ym Mro Morgannwg. Doedd ond angen i rywun edrych ar y cynlluniau wobrwyedig yn gysylltiedig ag adeiladau fu gynt yn eiddo i'r Cyngor, fel y Tŷ Pwmpio, Sied Nwyddau Hood Road a safleoedd allweddol eraill y Cyngor i weld y rhan yr oedd y Cyngor wedi'i chwarae er mwyn gwarchod ei dreftadaeth.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau cyfanswm y costau a ysgwyddwyd gan y Cyngor yn 2019-20 wrth amddiffyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio a gymerwyd gan yr Awdurdod?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Nid oedd y Cyngor yn cofnodi'r gost yn gysylltiedig ag amser swyddogion wrth amddiffyn penderfyniadau mewn achosion apêl. Gan amlaf, byddai swyddogion y

Cyngor yn ymdrin â'r achosion hynny, heb ddefnyddio arbenigedd cyfreithiol ychwanegol neu arbenigedd allanol arall.

Yn 2019-20, amddiffynnodd y Cyngor 26 o achosion apêl ac ennill 23 ohonynt (88%). Ni chafodd y Cyngor unrhyw 'ddyfarniad costau' yn ei erbyn yn y flwyddyn honno. Yn fwy diweddar yn 2020-21, amddiffynnodd y Cyngor 21 o achosion apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio, gan ennill 19 (90%) o'r achosion hynny, heb unrhyw orchymyn 'dyfarnu costau' yn ein herbyn. Hyd yma, yn y flwyddyn roedd y Cyngor wedi amddiffyn 15 apêl, wedi ennill 12 (80%) ac nid oedd unrhyw orchymyn 'dyfarnu costau' wedi'i dderbyn yn erbyn y Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll i'r Aelod Cabinet sut y digwyddodd hyn i gyd, a pha fesurau fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol i sicrhau na fyddai gwallau fel hyn yn digwydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd y Cyngor wedi cyflawni gwall, nac ar fai, ond ar ôl gofyn cyngor gan Gwnsler, a materion yn gysylltiedig â chyfraith achosion nad oeddent yn hyddysg ar y pryd (nid yn unig i'r Cyngor nac i holl Awdurdodau Lleol Cymru), penderfynwyd peidio mynd ar drywydd y cais am adolygiad barnwrol.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf ynghylch pryd y bydd yr ymgynghoriad cynlluniedig ar gyfer cynlluniau trwydded parcio ar Spencer Drive, Heol Lewis a Stâd Dochdwy yn ward Llandochau yn debygol o gael ei gynnal?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

I ddechrau, canolbwyntiodd swyddogion ar gyflwyno mesurau rheoli parcio preswyl yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt naill ai gan alw tymhorol neu'r penderfyniad i gyflwyno taliadau newydd ar gyfer parcio oddi ar y stryd Bu llwyth gwaith sylweddol yn gysylltiedig â pharatoi'r cynlluniau, yr atodlenni a'r hysbysiadau cyfreithiol a'r gwaith corfforol ar y safle, ac roedd bwriad o hyd i fwrw ymlaen â chynllun Llandochau ar ôl rhoi'r cynlluniau ar waith yn yr ardaloedd cyntaf hyn.

Roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn monitro llwyddiant gweithredu cynlluniau parcio preswyl yn yr ardaloedd, fel y gallai ddysgu unrhyw wersi ar gyfer Llandochau. Nid oedd yr Aelod Cabinet ar y pryd yn gallu pennu union ddyddiad yr ymgynghoriad cynlluniedig ar gyfer cynlluniau parcio trwydded preswylwyr yn Llandochau. Er hynny, gobeithiai y gellid bwrw ymlaen â chynllun addas, gan gynnwys paratoi atodlenni a hysbysiadau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i hysbysebu'r Mesurau Rheoli Parcio i Breswylwyr yn fuan yn 2022. Fodd bynnag, roedd y raddfa amser a'r posibilrwydd o fwrw ymlaen ag unrhyw gynllun yn y dyfodol yn dibynnu'n helaeth iawn ar ganlyniad arolygon parcio a thraffig y byddai angen eu cyflawni.

Yr hyn yr oedd yr Aelod Cabinet yn ei ddeall oedd bod swyddogion uwch o fewn y Cyngor yn ddiweddar wedi cysylltu â'r Cynghorydd Carroll i drefnu cyfarfod, yn ei thyb hi, ar 7 Hydref 2021, i drafod y mater yn fanylach, fel y gallai'r Cynghorydd gael gwybod yn llawn am y sefyllfa.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Arweinydd roi dadansoddiad fesul ward o nifer y cartrefi sydd ar hyn o bryd yn destun camau gorfodi gan y Cyngor yn gysylltiedig â mynediad i dramwyfeydd (cwrbiau isel) ym Mro Morgannwg?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Hyd hynny, nid oedd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol wedi cael eu cymryd yn erbyn unrhyw un, ac i raddau helaeth y dymuniad oedd gweithio gyda phreswylwyr i adeiladu mannau diogel a phriodol i groesi'r droedffordd; pe byddent yn dymuno parhau i groesi'r droedffordd gyhoeddus ar ôl derbyn llythyr yn nodi nad oedd caniatâd i wneud hynny ar hyn o bryd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands a oedd unrhyw gynlluniau i gwrdd â'r Grŵp Cymunedol. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw gynlluniau i gwrdd â grwpiau cymunedol, gan fod y materion yn gysylltiedig ag amgylchiadau personol, a oedd yn aml o natur ariannol, nad oedd modd eu trafod yn gyhoeddus. Er nad dyma oedd ei faes cyfrifoldeb o fewn ei bortffolio, dywedodd y dylai unrhyw unigolyn a chanddo bryderon yr effeithiwyd arno gan benderfyniad gysylltu â swyddogion ac/neu'r Aelod Cabinet perthnasol i drafod materion ar sail unigol, fesul achos.

(xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

Tybed a wnaiff yr Arweinydd gadarnhau cyfanswm y refeniw y mae'r Cyngor yn disgwyl ei gynhyrchu yn sgil camau gorfodi gostwng cwrbiau ledled Bro Morgannwg, ac ar beth y mae'r Awdurdod yn bwriadu gwario'r arian hwnnw?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd a wnelo'r mater â refeniw, ond ei fod yn golygu gwneud y peth iawn, a sicrhau nad oedd diogelwch holl ddefnyddwyr y briffordd yn y fantol, boed hynny yn achos gyrwyr neu gerddwyr a oedd yn defnyddio'r troedffyrdd.

Yn seiliedig ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma, amcangyfrifodd y Cyngor mai tua £11k fyddai cyfanswm yr incwm ar gyfer 2021/22. Ni fyddai'r incwm ond yn cyfrannu'n rhannol at yr amser y byddai swyddogion yn ei dreulio'n cyhoeddi trwyddedau ac yn monitro, ac ailadroddodd mai'r nod oedd sicrhau diogelwch holl

ddefnyddwyr y briffordd.  Roedd hi hefyd yn bwysig nodi bod diffyg o oddeutu £1.25 miliwn yng nghyllideb gyfredol y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands pam ei bod hi'n cymryd mor hir i orfodi hyn. Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau mannau croesi diogel wedi'u hadeiladu'n briodol, a dywedodd wrth breswylwyr a oedd wedi derbyn llythyr i siarad â'r swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor. I gloi, dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n ofynnol yn gyfreithiol i sicrhau bod mannau croesi ar droedffyrdd cyhoeddus yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Arweinydd amlinellu cyfanswm yr amser a dreuliwyd gan swyddogion (mewn oriau) ers 2019 yn gysylltiedig â chamau gorfodi ar gyfer cwrbiau isel ar draws Bro Morgannwg.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Nid oedd y Cyngor yn cadw unrhyw gofnodion penodol ar gyfer nifer yr oriau o amser Swyddogion a dreuliwyd ar faterion yn gysylltiedig â chwrbiau wedi'u gostwng.Roedd y gwaith yn cael ei gyflawni gan nifer o Arolygwyr, ochr yn ochr â'r dyletswyddau eraill niferus y maent yn eu cyflawni'n rheolaidd i sicrhau bod y briffordd yn ddiogel.

**Atodol**

Gan fod y ddeddfwriaeth wedi'i phasio ers tro, gofynnodd y Cynghorydd Rowlands pam nad oedd y Cyngor wedi cymryd camau gorfodi ynghynt.  Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n ofynnol yn gyfreithiol i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac yn sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch cerddwyr.

(xvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

Tybed a wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf am brosiectau trafnidiaeth cyfredol a rhai sydd wedi'u cynllunio i'r dyfodol ledled Bro Morgannwg?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Wrth ddweud bod y Cynghorydd Rowlands yn gofyn am y newyddion diweddaraf ynghylch cynlluniau diogelwch ffyrdd, ychwanegodd fod y Cyngor yn cyflawni nifer o welliannau diogelwch ffyrdd drwy gydol y flwyddyn. Oherwydd hynny, gofynnodd i'r Cynghorydd Rowlands anfon e-bost ato ynghylch cynllun neilltuol, a byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands i'r Arweinydd a oedd y Cyngor wedi gwneud cais i'r Adran Drafnidiaeth ynghylch gorsaf newydd yn Rheilffordd Sain Tathan. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn ymwybodol bod cais wedi'i gyflwyno eto, ond y byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

(xvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am gynlluniau diogelwch ffyrdd ar draws Bro Morgannwg?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi cynnal nifer o welliannau diogelwch ffyrdd drwy gydol y flwyddyn, a phe bai modd i'r Cynghorydd Rowlands anfon ymholiad penodol ato mewn e-bost, byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands beth oedd y Cyngor yn ei wneud ynghylch pryderon preswylwyr am gyffordd Sain Tathan ger y gofeb. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn effro i'r mater, ac yn monitro'r sefyllfa, ond bod angen cyllid.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Aelod Cabinet yn rhoi'r newyddion diweddaraf am drafnidiaeth i'r ysgol? Mae rhieni lleol wedi mynegi pryderon ynghylch dibynadwyedd rhai gwasanaethau, a'r diffyg cyfathrebu rhwng y cwmnïau bws a'r ysgolion.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gan y Cyngor gontract ar gyfer oddeutu 195 o wasanaethau trafnidiaeth ysgol ledled y flwyddyn, felly gofynnodd i'r Cynghorydd Rowlands anfon e-bost ato gan gyfeirio at fater penodol, a byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands i'r Aelod Cabinet pam nad oedd cwmnïau bws yn hysbysu ysgolion pan fyddai bysus ysgol yn cael eu canslo. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod prinder gyrwyr yn broblem eang, ond y byddai'n tynnu sylw at y broblem gyfathrebu. Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod Covid-19 hefyd wedi bod yn gryn ergyd i gwmnïau.

(xix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

Nawr bod taliadau parcio ceir wedi'u cyflwyno yn y Fro ers mis Medi, a all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf ynghylch hyn?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Rowlands anfon cwestiwn penodol ato, a byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands i'r Aelod Cabinet gadarnhau a oedd taliadau parcio ceir yn cynhyrchu incwm. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn gallu cadarnhau hynny ar y pryd, ond y byddai'n gwneud hynny ymhen amser.

(xx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff Aelod y Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith i uwchraddio cyfleusterau hamdden yn y Barri?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant**

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gwaith uwchraddio'n cael ei gwblhau ar yr holl gyfleusterau hamdden yn y Barri drwy gydol y flwyddyn, a phe bai gan y Cynghorydd Rowlands ymholiad penodol, gallai anfon e-bost ati a byddai'n ymateb mewn ysgrifen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands am y newyddion diweddaraf ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei wneud i ddatrys y diffyg dŵr poeth yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot. Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion yn cysylltu'n gyson i drafod problemau yn y ganolfan, a bod gwaith adnewyddu hefyd yn cael ei gyflawni yno.

(xxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd VJ Bailey**

Yng ngoleuni'r llwyth o lythyrau a anfonwyd at rai o breswylwyr y Fro, sut yr aeth Cyngor y Fro ati i ddewis contractwyr i ymdrin â chwrbiau wedi'u gostwng, ac a yw'r Aelod Cabinet yn ymwybodol bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn cael dyfynbrisiau gan y rhestr o gontractwyr cymeradwy, ond i'r dyfynbrisiau hynny gael eu codi'n sylweddol wythnos neu ddwy yn ddiweddarach o beidio â'u derbyn ar unwaith?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd y rhestr o gontractwyr cymeradwy wedi cael ei hadolygu gan y tîm ym mis Mai 2020. Cysylltwyd â'r holl gontractwyr ar y rhestr a gofyn a oeddent yn dymuno

aros ar y rhestr. Roedd yr holl gontractwyr wedi cadarnhau eu bod yn dymuno ar os ar y rhestr ar y pryd, ac ar hyn o bryd roedd y rhestr yn cynnwys 17 o'r contractwyr cymeradwy.

Nid oedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o unrhyw gontractwr a oedd wedi cynyddu prisiau os nad oedd cwsmeriaid yn derbyn dyfynbris o fewn cyfnod penodol. Fodd bynnag, pe bai'r Cynghorydd Bailey yn dymuno cael ymateb manylach, gallai anfon rhagor o wybodaeth drwy e-bost am y mater penodol dan sylw, a chytunodd yr Aelod Cabinet i ymateb fesul achos.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Bailey a fyddai'r Aelod Cabinet yn barod i gwrdd â phreswylwyr i drafod camau gorfodi. Dywedodd yr Aelod Cabinet na fyddai'n gallu gwneud hynny gan fod yr wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ymwneud yn benodol ag amgylchiadau'r preswylydd unigol.

(xxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd VJ Bailey**

A yw'r Aelod Cabinet wedi asesu'r effaith y bydd hysbysiadau gorfodi ar gyfer cwrbiau isel yn ei chael ar fynediad mewn ardaloedd preswyl o ran casgliadau gwastraff ac - yn bwysicach - cerbydau argyfwng; os yw nifer fawr o breswylwyr yn canfod nad ydynt yn gallu fforddio gwaith adfer costus iawn, a'u bod yn lle hynny yn dewis parcio ar y ffordd yn unol â'r cyngor a roddwyd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Nid cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet na swyddogion oedd cynnal asesiad effaith o'r fath. Roedd creu rhwystr bwriadol ar briffordd yn drosedd, a gallai'r Heddlu ddirwyo'r unigolyn pe bai'n atal traffig rhag llifo'n rhwydd. Gyrrwr y cerbyd oedd i fod i sicrhau ei fod yn parcio mewn modd diogel, nad oedd yn creu rhwystr.

Yr hyn nad oedd yn destun dadl, fodd bynnag, oedd yr angen clir i ddarparu pob man croesi mewn modd rheoledig a hyd at safon dderbyniol er mwyn peidio amharu ar ddiogelwch cerddwyr, a bod y seilwaith yn cael ei gynnal yn ddigonol hyd at safon resymol fel y gallai holl ddefnyddwyr y briffordd deimlo'n ffyddiog eu bod yn ddiogel wrth ddefnyddio priffyrdd a throedffyrdd. Dywedodd nad oedd bosib fod hynny'n destun dadl.

**Atodol**

Pe bai gwasanaethau'n methu pasio, gofynnodd y Cynghorydd Bailey i'r Aelod Cabinet a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros hynny. Wrth ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet nad ei gyfrifoldeb ef oedd hyn, ond cyfrifoldeb perchennog y cerbyd. Roedd yn fater i unigolion ac felly roedd pob mater yn gyfrinachol. Roedd y Cyngor wedi bod yn gweithio'n ddiflino i helpu gyda phob achos unigol, a dyna pam nad oedd unrhyw achos cyfreithiol wedi'i gychwyn hyd yma.

(xxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd VJ Bailey**

Er bod y cynnydd mewn gwelyau blodau gwyllt ac ardaloedd o laswellt heb ei dorri i'w croesawu ac o gymorth i natur yn y Barri, ymddengys na chafodd y strydoedd eu trin i atal chwyn eleni. Efallai fod rhai pobl o'r farn fod hyn o fudd ychwanegol i natur, ond mae'r gwreiddiau sy'n tyfu rhwng cerrig palmant ac yn chwalu pafinau concrit yn ychwanegu at ddirywiad mewn llawer o ardaloedd. A fydd chwyn ar balmentydd yn cael eu trin y flwyddyn nesaf?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd y palmentydd yn y Barri wedi cael eu trin ddwywaith yn barod yn ystod y flwyddyn, a byddai trydedd driniaeth yn cael ei rhoi yn fuan yn 2022. Yn y Barri, roedd y driniaeth gyntaf wedi'i chwblhau ym mis Mai, a'r ail driniaeth ym mis Gorffennaf, ac roedd triniaeth atal chwyn wedi'i chynllunio eto ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Cydnabu'r Aelod Cabinet ei bod hi'n ymddangos fel pe bai neb yn gwirio twf chwyn ar briffyrdd mewn rhai lleoliadau ar draws y Fro, ond dywedodd fod y contractwr yn defnyddio dull trin newydd a oedd yn sicrhau gostyngiad o 80% yn y defnydd o chwynladdwr o gymharu â'r dull taenu blaenorol. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn adolygu hyfywedd y dull hwn, a mesurau eraill posibl ar gyfer trin chwyn, cyn adnewyddu'r contract ar 31 Mawrth 2022.

364 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010:

(i) **Cwestiwn gan Mr. R. Curtis**

Ar hyn o bryd, mae plaladdwyr a chwynladdwyr yn cael eu chwistrellu mewn parciau, caeau chwarae ar mewn mannau glas eraill, ar ymylon ffyrdd, ar bafinau ac o amgylch canolfannau siopa, ysbytai ac ysgolion. Mae bron bob un o'r plaladdwyr a ddefnyddir yn chwynladdwyr nad ydynt ond wedi'u bwriadu i gadw ardaloedd yn "daclus". Mae'r cemegion hyn yn gysylltiedig â llu o broblemau iechyd, gan gynnwys canser, asthma a phroblemau atgenhedlu. Mae grwpiau sy'n agored i niwed, fel plant, mamau beichiog a'r henoed mewn perygl arbennig. Yn gynyddol, mae bywyd gwyllt fel gwenyn, adar a draenogod yn ceisio canfod lloches yn ein trefi a'n dinasoedd, ond mae gorddefnydd o blaladdwyr mewn ardaloedd trefol yn halogi'r adnoddau naturiol y maent yn dibynnu arnynt. Gall plaladdwyr hefyd wenwyno ein hanifeiliaid anwes. Ond mae'r defnydd o blaladdwyr trefol yn ddiangen. Mae llawer o opsiynau posibl cost-effeithiol eraill ar gael nad ydynt yn cynnwys defnyddio cemegion, ac mae dros 60 o drefi a dinasoedd ledled y DU eisoes wedi gweithredu i roi'r gorau i ddefnyddio plaladdwyr, neu ostwng y defnydd ohonynt yn sylweddol. Rydym yn croesawu penderfyniad diweddar y Cyngor i gyhoeddi argyfwng natur, ac mewn ymateb i'r datganiad hwnnw, rydym yn galw ar Gyngor Bro Morgannwg i ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr o fewn y tair blynedd nesaf.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn trin chwyn ar ei briffyrdd dair gwaith y flwyddyn ledled Bro Morgannwg yn ystod mis Ebrill, Gorffennaf a Medi, a defnyddiodd y contractwyr beiriannau chwistrellu strydoedd a oedd yn cynnwys technoleg "Weed-It" a oedd yn targedu'r chwyn yn fanwl, gan sicrhau gostyngiad o hyd at 80% i'r cemegyn yr oedd angen ei ddefnyddio. Roedd blaen y chwistrellau o dan ganopi caeedig, a'r risg y gallai unrhyw hylif lifo i dir arall yn isel iawn. Er nad oedd rhai trefi a dinasoedd yn defnyddio glyffosad mwyach, dyna oedd y cemegyn a oedd yn cael ei ddefnyddio'n fwyaf eang ymhlith Cynghorau'r Deyrnas Unedig o hyd, ac roedd wedi'i gymeradwyo yn yr UE i'w ddefnyddio hyd 15 Rhagfyr 2022.

Y Cyngor oedd y cyngor cyntaf, a hyd y gwyddai'r Aelod Cabinet, yr unig gyngor yng Nghymru o hyd i ddefnyddio'r system dŵr poeth ac ewyn "Foamstream" heb blaladdwr i drin chwyn yn ei barciau addurnol a baner werdd. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu mwy o lafur ac yn cymryd llawer mwy o amser, ac ni fyddai'r system ar hyn o bryd yn addas i reoli chwyn ar briffyrdd/strydoedd onid oedd yr ardaloedd a oedd yn cael eu trin yn fach iawn.

Er gwaethaf yr holl sylw yn y wasg ynghylch y peryglon posibl a gysylltir â glyffosad, roedd y plaladdwr wedi'i reoleiddio'n dda iawn, ac yn llawer llai gwenwynig i fywyd gwyllt a'r amgylchedd na llawer o'r cyfansoddion eraill a ddefnyddir bob dydd. Er enghraifft, roedd cannydd, hylif glanhau carpedi, olew modur, ffresnydd aer, hylif glanhau popty, lladdwyr mowld a llwydni, a llawer mwy o gynnyrch i ddefnyddwyr ar gyfer y cartref a'r ardd, yn llawer mwy niweidiol i bobl a'r amgylchedd, hyd yn oed o'u defnyddio'n gywir.

Roedd profion parhaus yn cael eu cynnal ar bob cynnyrch glyffosad, ac wrth ei ddefnyddio'n ofalus roedd glyffosad yn gymharol ddiogel. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn anadweithiol ar ôl dod i gysylltiad â phridd a bod lefel y gwenwyn ynddo'n gymharol isel i bysgod a bywyd gwyllt. Yr oedd hefyd yn rhwymo'n dyn wrth bridd, felly'n gwarchod dŵr daear o'i daenu'n gywir.

Ar wahân i'r uchod, byddai'n bryd adnewyddu contract cyfredol y Cyngor ar gyfer rheoli chwyn ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, a chan ei bod hi'n debygol y ceid mesurau rheoli pellach ar gyfer glysoffad yn 2022, a bod pryderon wedi'u mynegi'n eang ynghylch parhau i ddefnyddio'r cemegyn hwn, byddai swyddogion yn edrych ar yr holl opsiynau eraill a oedd ar gael wrth lunio'r manylebau ar gyfer y contract rheoli chwyn newydd a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2022.

(ii) **Cwestiwn gan Mr. A. Miller**

Cafwyd llawer o adroddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol fod y Cyngor yn cyfeirio at "ddatblygiad" fel rheswm dros gael gwared â'r cychod sydd wedi'u gadael yn yr hen harbwr. Mae hyn yn ei dro wedi achosi llawer o drafodaeth ynghylch pa ddatblygiad a allai fod wedi'i gynllunio ar gyfer yr hen harbwr. A allai'r Cyngor roi eglurhad ynghylch hyn?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio**

Dywedodd yr Aelod Cabinet "ni ddylech goelio popeth rydych chi'n ei ddarllen ar y cyfryngau cymdeithasol." Nid oedd unrhyw gynlluniau datblygu yn yr Hen Harbwr ar hyn o bryd. Ar ôl rhybuddio perchnogion y cychod droeon, yn anffodus bu angen cael gwared â dau gwch mawr o'r Hen Harbwr a oedd wedi'u hangori'n anghyfreithlon am eu bod yn achosi risg i'r amgylchedd a hefyd yn beryglus i gychod eraill. Roedd un ohonynt wedi dod yn rhydd o'i raff angori yn gynharach yn y flwyddyn ac mewn perygl o arnofio allan i'r môr. Ar yr un pryd, ystyriwyd y byddai'n ddoeth cael gwared â’r hen gychod eraill a oedd wedi’u gadael ac a oedd wedi hagru'r Harbwr ers blynyddoedd lawer. Y gobaith oedd y byddai hyn yn dangos i eraill, a allai fod yn ystyried gadael hen longau/gychod a oedd wedi mynd â'u pen iddynt yn yr Harbwr, na fyddai hyn yn cael ei oddef yn y dyfodol. Nid oedd y camau a gymerwyd ond yn deillio o'r angen i gael gwared â'r hen gychod o'r harbwr er budd diogelwch, i warchod yr amgylchedd a gwella ymddangosiad yr harbwr yn gyffredinol fel porth pwysig i'r ynys.

(iii) **Cwestiwn gan Miss. J. Brunskill**

Mae cymuned y Barri wedi dod ynghyd ers blynyddoedd lawer i frwydro dros iechyd y dref, gyda llosgydd Aviva yn bygwth llygru cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymchwilio i'r camgymeriadau lu a wnaed gennych chi, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ers 2008, ac wedi cyfeirio atynt. Does gan ein cymuned ddim cymwysterau, ond rydym wedi ein profi'n gywir, yn enwedig o ran diffyg Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd. Rydyn ni nawr yn ein cael ein hunain yn edrych ar gyfraith cynllunio, heb unrhyw brofiad ond ar ôl gwneud llawer o waith ymchwil. Deallaf fod Rheoliad 3 yn rheoliadau cynllunio Gwlad a Thref 2016 yn nodi bod "Gwaharddiad ar roi caniatâd cynllunio neu gydsyniad dilynol heb roi ystyriaeth i wybodaeth amgylcheddol." Heb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ni all y llosgydd gael caniatâd cynllunio ar gyfer yr ychwanegiadau niferus a'r tir i'r Gogledd, nac ar gyfer cais 2015 ychwaith. Mae hyn yn arwain ymhellach at gydweithrediad diffuant Deddfau Ewropeaidd ar gyfer Asesu Effaith Amgylcheddol, y dylai Llywodraeth Cymru fod yn edrych arno. Nid yw Datganiad Amgylcheddol yr un peth o gwbl ag Asesiad Effaith Amgylcheddol, gan fod y llosgydd eisoes wedi'i adeiladu. Dylid bod wedi gwneud hyn cyn dechrau'r gwaith adeiladu, a gallai fod yn ofynnol i gwmnïau gyflwyno newidiadau o ran y Dechnoleg Orau sydd ar Gael a'r Gorau ar gyfer yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu bod y llosgydd yn gwbl anghyfreithlon. Fel cymuned, rydym eisoes wedi ymchwilio i'r hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol ac eisoes yn gwybod na fydd y Datganiad Amgylcheddol yn ddogfen sy'n dderbyniol yn gyfreithiol o gwbl os nad yw'n cynnwys ystyriaeth o'r nifer o newidiadau a'r problemau amgylcheddol yn sgil defnyddio'r tir i'r gogledd, yn ogystal â'r ffaith bod y llosgydd wedi'i adeiladu yn barod. Siawns y byddai'n fwy hwylus i'r cyngor roi terfyn ar y gwaith a dweud wrth y cwmni am gael gwared â'r contrapsiwn hyll sydd eisoes wedi'i godi ac ailgychwyn yr holl broses unwaith eto gan gynnal yr Asesiad Effaith Amgylcheddol CYFREITHIOL. Nid oedd y gymuned yn dymuno cael mwy o lygredd aer, sŵn neu olau, ochr yn ochr â nwyon tŷ gwyr diangen, tra'r oedd y broses gyfreithiol yn cael ei dilyn. Gan fod Aviva eisoes wedi gwario £200 miliwn ar ei 3 llosgydd, http://www.thetimes.co.uk/.../legal-disputes-pose-threat... gyda thros £300 biliwn o dan ei reolaeth, a'r cyhoedd yn talu'r cymorthdaliadau yn y dyfodol, nid oes

gennym unrhyw reswm i boeni am eu costau - bydd y rheiny'n ddibwys o'u safbwynt hwy, ond yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd y gymuned. Pam na all y Cyngor bwyso am hysbysiad i'r gwaith beidio, boed hynny dros dro neu'n barhaol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gan y byddai Cyngor Cymuned y Barri yn cefnogi ein Cyngor yn llawn wrth iddo wneud hynny?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Dechreuodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud bod swm sylweddol o wybodaeth yn gysylltiedig â'r mater ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi awdurdodi cyflwyno hysbysiad gorfodi cyfreithiol i'r partïon perthnasol yn y Pwyllgor Cynllunio ar 1 Medi, ac roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor bryd hynny'n rhoi esboniad llawn o'r dull gweithredu a pham bod camau gorfodi wedi'u hargymell. Mater ar wahân oedd yr angen, neu beidio, am Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) a'r Datganiad Amgylcheddol dilynol. Roedd hynny dan ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru, a'r Llywodraeth honno fyddai'n penderfynu ynghylch y mater.

Dylid nodi na chadarnhawyd y gofyniad am AEA gan Lywodraeth Cymru yn 2015 pan ystyriodd y Cyngor yr ail gais ar gyfer y math hwn o gynnig. Fodd bynnag, yn dilyn llythyr a ddaeth i law ym mis Gorffennaf 21, roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi newid ei barn yn ffurfiol, a byddai'n datrys y mater yn uniongyrchol â'r ymgeiswyr.

Byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau i gael ei monitro er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr wedi derbyn yr holl ganiatâd angenrheidiol, a byddai unrhyw gamau pellach yn cael eu hystyried, a phe bai angen, yn cael eu cymryd, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

(iv) **Cwestiwn gan Mr. S. Thorne**

A yw'n rhy agos at yr arholiadau i gynnig pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinyddiaeth gyfredol BM?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd Cyfansoddiad y Cyngor ym mharagraff 5.3.1 (d) yn ymdrin â 'phleidlais diffyg hyder' a oedd yn ddarostyngedig i'r terfyn amser yn gysylltiedig â Chynigion ar Rybudd y gellid cael hyd iddynt ym mharagraff 4.19.1 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

(v) **Cwestiwn gan Miss D. Nicholls**

Pryd y gellir cyflwyno cynllun parcio â thrwydded ar Glamorgan Street? Un car sydd gen i, ac mae'r ffaith nad ydw i'n gallu parcio'n agos at fy nhŷ yn destun rhwystredigaeth barhaus imi.

**<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth</u>**

Er nad oedd gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb statudol i gynnig trefniadau parcio ar y stryd, roedd yn cydymdeimlo ag ardaloedd preswyl y gallai nifer yr ymwelwyr gael effaith andwyol arnynt, ee mewn cyrchfannau neu ardaloedd yn agos at ganol y drefn, ac am hynny roedd y Polisi Rheoli Parcio i Breswylwyr wedi cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2020. Roedd modd cael hyd i'r polisi newydd ar wefan y Cyngor, neu drwy wneud ymholiad yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor.

Ar hyn o bryd, roedd Swyddogion yn anfon ceisiadau am gynlluniau parcio i breswylwyr yn unig mewn ardaloedd amrywiol, a chadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ychwanegu Glamorgan Street at y rhestr honno i'w hystyried yn y dyfodol. Ymhellach at hyn, fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y rhestr aros eisoes yn hir, a chan fod y gyllideb a oedd ar gael i weithredu cynlluniau o'r fath yn gyfyngedig, nid oedd modd pennu graddfa amser ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ar Glamorgan Street.

Ni fyddai gweithredu cynllun parcio Trwyddedau Preswylwyr o reidrwydd yn galluogi preswylwyr i barcio ar eu stryd, ac yn bendant ni fyddai'n rhoi unrhyw sicrwydd o allu parcio'n agos at gartref neu eiddo penodol, gan fod cynifer yn berchen ar geir ar strydoedd tai teras preswyl, a hyd y lle parcio ar ochr y stryd ar gyfer y ceir hynny yn gyfyngedig.

(vi) **<u>Cwestiwn gan Mr. P. Gibbs</u>**

Ddydd Gwener 30 Gorffennaf 2021 datganodd Cyngor y Fro argyfwng hinsawdd a gytunwyd gan y Cyngor Llawn. Dywedoch chi y byddai hyn "wrth galon yr holl benderfyniadau" a wneir gan y Cyngor. Mewn adroddiad diweddar gan ohebydd lleol ynghylch cais cynllunio yn Nhresimwn, cafwyd y dyfyniad canlynol gan eich Pennaeth Adfywio a Chynllunio "Nid yw'r datganiad argyfwng hinsawdd yn atal datblygiad yn y dyfodol. Pe bai hynny'n wir, ni fyddai gan yr un ohonom swydd". Dywedodd hefyd, "mae'n bwysig nad ydym yn defnyddio'r term blasé "argyfwng hinsawdd" i ddiystyru pob datblygiad". Fel aelod o Grŵp Unite Cymuned y Fro a allaf gyfeirio i ddechrau at y ffaith nad term blasé yw Argyfwng Hinsawdd, ond ffaith wedi'i chofnodi'n glir. Hoffem ofyn a yw'r Cyngor yn credu'n wirioneddol fod angen gwarchod y gymuned rhag problemau difrifol yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r hinsawdd. Os felly, pam bod yr adran gynllunio yn pwyso'n barhaus i adeiladu ar fannau glas tra bo safleoedd tir llwyd ar gael ar hyd a lled y Fro, ac wrth wneud hynny'n anwybyddu gwrthwynebiadau gan breswylwyr gan roi'r flaenoriaeth i gwmnïau datblygu mawr.

**<u>Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.</u>**

Roedd y Cyngor yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd yn llwyr, ond oherwydd rôl statudol y Cyngor wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, roedd angen iddo ystyried yr holl ffactorau perthnasol o bwys wrth benderfynu ynghylch cynigion datblygu, gan gynnwys ystyriaeth o bolisïau lleol a chenedlaethol, ffactorau amgylcheddol, a'r angen am dai newydd. Roedd y broses o asesu a chydbwyso cyn

llunio argymhelliad a phenderfynu ynghylch ceisiadau wedi'i nodi'n glir yn y Deddfau a'r Rheoliadau Cynllunio.

Nid oedd y ffaith bod Argyfwng Hinsawdd neu Argyfwng Natur wedi'i ddatgan yn drech na'r angen i ystyried cynigion datblygu wedi'u cyflwyno i'r Cyngor gan ymgeiswyr a datblygwyr. Roedd hi'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau o'r fath ac i bwyso a mesur a oedd pob cais unigol yn dderbyniol ai peidio, gan roi sylw i amrywiaeth o ystyriaethau o bwys.

(vii) **<u>Cwestiwn gan Mr. R. Brewer</u>**

Pam bod carfan fechan iawn, 8 o bobl yn unig, wedi symud cais cynllunio yn ei flaen ar gyfer dinistrio Model Farm, y Rhws. Byddant yn lladd fferm weithiol a'r tir glas. Ond wedyn ar eich tudalennau Trydar a Facebook rydych chi'n hoffi dweud eich bod yn gwarchod yr amgylchedd. All hynny ddim bod yn wir, achos rydych chi eisiau dinistrio'r amgylchedd, a'r cyfan am arian. Rydw i'n credu bod cywilydd ar L&G, ac arnoch chi am adael i hyn fynd yn ei flaen. Bydd hyn yn cael effaith ar lygredd traffig, ac nid yw'r ffyrdd yn ôl a blaen o'r Rhws yn gallu ymdopi â hynny ar hyn o bryd. Mae mwy o dyllau yn y ffordd sy'n mynd i mewn i'r pentref na'r tyllau yn ogofâu Wookey Hole. Rhowch y gorau i hyn cyn gynted ag sy'n bosibl - mae mwy i fywyd nag arian.

**<u>Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.</u>**

Gan gyfeirio at ymateb yn gynharach yn yr agenda i Mrs Gibbs, eglurodd yr Aelod Cabinet fod yn rhaid i'r Cyngor ystyried pob cais am ganiatâd cynllunio a oedd yn cael ei gyflwyno i'w ystyried ganddo.

Yn achos datblygiad Model Farm, yn debyg i fwyafrif helaeth y ceisiadau am ganiatâd cynllunio, nid y Cyngor oedd yr ymgeisydd na'r datblygwr. Yr unig beth yr oedd yn ei wneud oedd gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yr oedd eraill wedi cyflwyno iddo.

Yn achos Model Farm, roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn esbonio'r rhesymau dros yr argymhelliad i gymeradwyo'r cais, gan nodir bod y datblygiad hefyd yn rhan allweddol o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd gan y Cyngor yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg Roedd y CDLl yn cynnig y fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer Bro Morgannwg ac wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017. Roedd pob penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun hwnnw, onid oedd ystyriaethau o bwys yn nodi fel arall.

Yr oedd hefyd yn bwysig nodi bod y mater yn gysylltiedig â chais Model Farm wedi bod yn destun cais am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad y Cyngor, ac roedd yr achos yn mynd rhagddo drwy'r Llysoedd ar hyn o bryd.

(viii) **Cwestiwn gan Mrs. L. Rowe**

Pryd fydd gwaith chwynnu'n digwydd ar lwybr Birdcage Walk, a'r llwybr yn cael ei agor unwaith eto? Mae'r concrit yr un mor rhydd ar yr adran sy'n dal i gael ei defnyddio. Hefyd, mae'r holl goed wedi cael eu torri felly does dim unrhyw ganghennau dros y llwybr. Mae'n beryglus iawn i bobl groesi'r heol ar ben Heol yr Harbwr, Stryd Meisgyn wrth y gyffordd â Rhodfa'r Parc, gan fod yn rhaid camu i'r ffordd.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi ymateb i gwestiwn tebyg yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Yn anffodus, oherwydd problemau cyfreithiol cymhleth nid oedd y Cyngor yn llawer pellach ymlaen.

Roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn cysylltu â'r partïon perthnasol ac yn ystyried ei sefyllfa gyfreithiol er mwyn penderfynu sut orau i symud ymlaen. Yn y cyfamser, roedd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa ac yn rheoli'r broses angenrheidiol o gael gwared â llystyfiant a oedd mewn rhai achosion yn cyfrannu at y problemau strwythurol, ac a fyddai'n atal gwaith trwsio yn y dyfodol.

Gan hynny, roedd angen cadw Birdcage Walk ar gau er diogelwch y cyhoedd, nes bo atebolrwydd wedi'i ddatrys, a chynllun trwsio priodol wedi'i roi arwaith. Oherwydd y sefyllfa hon, nid oedd hi'n bosibl dweud pryd y byddai Birdcage Walk yn ailagor ar hyn o bryd.

Er bod arwyddion o ddirywiad ar rannau eraill o'r wal gynnal ar hyd Broad Street, nid oedd y llwyth ychwanegol o strwythur cynnal preifat uwchben yn cael effaith andwyol ar y rhannau hynny, fel yr hyn a oedd yn digwydd yn y rhan a oedd ar gau. Roedd y llwybra u troed cyfagos felly wedi'u cadw'n agored ac yn ddiogel i'w defnyddio, gyda'r wal gynnal gyffiniol yn cael ei monitro'n rheolaidd. Roedd croesfan sebra ar gael yng nghyffiniau Gorsaf Reilffordd y Barri, a dwy groesfan sebra arall ar gael ar ben uchaf Ship Hill ac i'r gorllewin o Stryd Meisgyn er mwyn helpu cerddwyr i groesi'r ffordd yn yr ardaloedd hyn. Er y gallai hyn olygu ychydig o wyriad ac anghyfleustra i gyrraedd Stryd Meisgyn o Heol yr Harbwr, roedd angen gwneud hyn i sicrhau diogelwch y cyhoedd, oherwydd y problemau strwythurol y soniwyd amdanynt uchod ar hyd Birdcage Walk.

(ix) **Cwestiwn gan Miss. G. Adams**

Pam ydych chi wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer "dinas maes awyr" yng nghanol argyfwng newid hinsawdd? Pam ydych chi wedi cyflwyno asesiad traffig yn seiliedig ar leihau'r nifer o bobl sy'n beicio, yn cerdded, yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a 20% o bobl yn gweithio o bell. Pa mor boblogaidd yw eich llwybr beicio mewn gwirionedd ar y Lôn Pum Milltir.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn nodi'r holl faterion yn gysylltiedig â'r ystyriaeth o'r cais, ac yn gyson â'r atebion blaenorol yn y cyfarfod. Er eglurder, nid oedd yr asesiad Traffig wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor, ond yn hytrach gan yr ymgeisydd, yn ôl yr arfer. Rôl y Cyngor oedd penderfynu ynghylch ceisiadau ac asesu'r holl wybodaeth a gyflwynwyd.

O ran y defnydd o lwybrau beicio, roedd dyfais cyfrif beicwyr wedi cael ei gosod ar y llwybr cyd-ddefnyddio i feicwyr a cherddwyr a oedd yn gyfochr â'r A4226, rhwng Waycock Cross a Chanolfan Hawking, o 24 Hydref hyd 30 Hydref 2020. Yn ystod yr wythnos a arolygwyd, roedd 167 o deithiau beic wedi'u cwblhau ar y llwybr, a oedd yn lefel gymharol uchel o ddefnydd yn hwyr ym mis Hydref.

(x) **Cwestiwn gan Mrs. L. Harfoot**

Ar ôl y stŵr mawr ar raddfa genedlaethol ynghylch prinder bwyd, pam bod ffermydd ledled Cymru yn cael eu gwerthu, a thir unwaith eto'n cael ei newid at ddefnydd diwydiannol. Sut y gallwch chi gael polisi bioamrywiaeth ar y naill law a difrodi mwy o dir heb fod angen ar y llaw arall? A yw'r gefnogaeth o du'r cyhoedd tuag at ein ffermwyr a'n hanghenion i gael eu gwthio o'r neilltu er budd cwmnïau sy'n creu elw afresymol fel Legal and General? Nid yw hyn yn fater gwleidyddol, ond mater moesegol. Dylai'r Cyngor hwn ymddiswyddo, ni ddylai Llywodraeth Cymru gefnogi na chydoddef eich tuedd i blygu a thorri eich addewidion i drigolion y Fro yn llwyr.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Er bod nifer o'r pwyntiau a godwyd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, dywedodd yr Aelod Cabinet nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am werthu'r tir ffermio wrth y maes awyr a gerllaw, ac nad tir i'w werthu gan y Cyngor mohono. Fodd bynnag, roedd gan unrhyw unigolyn neu sefydliad hawl i wneud cais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir, ac roedd hi'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i wneud penderfyniad ynghylch ceisiadau felly. Wrth ystyried ceisiadau, roedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried amrywiaeth o ystyriaethau perthnasol ac o bwys, a ffurfio barn gytbwys. Roedd y broses yn gymhleth, a chan amlaf byddai ystyriaethau o bwys a fyddai o blaid y cynigion, ac ystyriaethau eraill a fyddai'n destun pryder. Dyna pam nad oedd i bob amser yn syml penderfynu ynghylch ceisiadau datblygu, yn enwedig os oedd y cynigion hynny o faint sylweddol, a pham y byddai gwahaniaeth o ran barn a safbwynt bron bob amser yn codi.

Gobeithio fod hyn yn esbonio rôl y Cyngor fel sefydliad sydd yn gorfod ystyried ceisiadau a phenderfynu yn eu cylch. Roedd yr ystyriaeth honno hefyd wedi'i hesbonio mewn atebion eraill i gwestiynau tebyg yn ystod y cyfarfod ac yn ymwneud â deddfwriaeth a pholisi lleol a chenedlaethol ynghylch cynllunio. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn nodi'r ystod eang o faterion i'w hystyried yn yr achos neilltuol. Roedd yr angen i warchod yr amgylchedd a

bioamrywiaeth yn ofyniad pwysig, ac yn ofyniad yr oedd yn rhaid ei ystyried a'i gydbwyso yn erbyn ffactorau eraill. Nid oedd yr Aelod Cabinet felly'n deall y sylw ynghylch addewidion wedi'u torri, gan ei bod hi'n ddyletswydd gyfreithiol i'r Cyngor ystyried ceisiadau a gyflwynir iddo. Roedd yr adroddiad Cynllunio hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth ynghylch gwarchod yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

(xi) **Cwestiwn gan Mr. M. Warner**

A allwn gael diffibriliwr ym mhob lleoliad chwaraeon o amgylch y Fro - mae'n beiriant sy'n achub bywydau.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Mae diffibrilwyr wedi'u lleoli ym mhob Canolfan Hamdden ym Mro Morgannwg, a hefyd ar amryw o safleoedd yn y gymuned.

Roedd y Cyngor yn fawr eu cefnogaeth tuag at ymdrechion clybiau chwaraeon i leoli diffibrilwyr mewn mwy o leoliadau yn y gymuned, lle byddent ar gael 24/7 i unrhyw un mewn angen. Er mwyn helpu gyda hyn, byddai'r Cyngor yn parhau i dalu'r costau gosod yn y lleoliadau hynny, fel yr oedd wedi gwneud yn y gorffennol. Yr enghraifft fwyaf diwethaf oedd Canolfan Gymuned Murchfield yn Ninas Powys, lle'r oedd y ddyfais wedi'i lleoli ar wal allanol, fel y gallai pawb gael mynediad ati mewn argyfwng.

(xii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Faint o arian sy'n ddyledus gan DS Properties (Goods Shed) Ltd i Fro Morgannwg?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd datblygiad Goods Sheds wedi arwain at fuddsoddiad preifat gwerth miliynau o bunnoedd a oedd wedi trawsnewid y Goods Sheds ac wedi creu llawer o swyddi newydd er budd y Barri a Bro Morgannwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, er gwaethaf heriau enfawr y pandemig. Yn unol â Chofnod y Cabinet C3416(2) (Cyfarfod y Cabinet ar 9 Ionawr 2017) roedd safle Goods Sheds wedi cael ei farchnata a'i waredu gan y Cyngor i DS Properties (Goods Sheds) Limited. Roedd manylion y contract gwerthu yn gyfrinachol am resymau masnachol.

Cafodd benthyciad Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) ei roi gan Lywodraeth Cymru i DS Properties (Goods Sheds) Limited drwy'r Cyngor tuag at gost prosiect Goods Sheds. Adroddwyd am fater benthyciad TRI wrth y Cabinet o dan Ran II o'r agenda ar 7 Ionawr 2019, a chaniatawyd y benthyciad yn unol ag adroddiad cyfrinachol, yn unol â Rhan II Cofnod Cabinet C545.

(xiii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Dywedwyd ar wefan y Fro y byddai Stryd Merthyr ar gau am 1 neu 2 wythnos. Tybed a all y Cyngor esbonio pam bod y ffordd hon yn dal ar gau dros fis yn ddiweddarach, gan fod traffig yn cael ei wyro ar hyd stryd a chanddi lawer o dagfeydd trwm.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd angen y trefniadau rheoli traffig dros dro ar Stryd Merthyr er mwyn i Wales and West Utilities gwblhau gwaith hanfodol i uwchraddio tua 400m o'r cyflenwad nwy.

Nid oedd eu Contractwr wedi gofyn am gael cau'r ffordd, ac roedd y gwaith i fod i gael ei gyflawni yn ystod oriau cyfyngedig - rhwng 09.00 a 15.00. Roedd y cyfyngiadau hyn wedi cael eu llacio dros y gwyliau haf er mwyn i'r Contractwr allu manteisio i'r eithaf ar bob diwrnod gwaith, er mwyn lleihau'r aflonyddwch ar breswylwyr.

Roedd Arolygwyr Priffyrdd yn mynd i edrych ar y safle yn rheolaidd ac, yn dilyn eu hymweliad, dywedwyd bod cerbydau'n pasio heibio'r gwaith heb unrhyw broblem. Byddai'r Arolygwyr yn parhau i arolygu'r safle'n rheolaidd, er mwyn sicrhau y cedwir at delerau ac amodau'r gwaith.

(xiv) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Ac ystyried y cynnydd mewn sbwriel yn y parciau ac ar y traethau, heb sôn am y cynnydd mewn sbwriel ar y stryd, a fydd y Cyngor yn cyflogi mwy o lanhawyr stryd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Nid oedd unrhyw esgus dros ollwng sbwriel, ac roedd hi'n drueni mawr ac yn destun rhwystredigaeth bod y sbwriel a gaiff ei ollwng a'r sbwriel sy'n cael ei roi mewn biniau sbwriel yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu. Mae'n siŵr bod hyn yn deillio'n rhannol o'r cynnydd yn y nifer a oedd yn ymweliad â llawer o'r atyniadau gan ei bod hi'n anodd mynd ar wyliau dramor. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn fodlon ei fod gan amlaf wedi llwyddo i gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol wrth ymdrin â'r sbwriel, oddi mewn i'r adnoddau a oedd ar gael, a chan werthfawrogi'r gefnogaeth gan grwpiau gwirfoddol fel Beautiful Barry. Nid oedd unrhyw gynlluniau i gyflogi mwy o lanhawyr stryd yn y dyfodol agos, yn lle hynny cydnabuwyd y byddai'n rhaid i wasanaeth glanhau'r Cyngor yn gorfod ailystyried ei flaenoriaethau wrth i'r galw gynyddu, ac wrth i ymddygiad newid. Yn hyn o beth, roedd swyddogion ar hyn o bryd yn asesu'r angen am raglenni addysgiadol pellach ac ar ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid amrywiol, er mwyn helpu i ymdrin â'r ymddygiad hwn a oedd yn hynod wrthgymdeithasol.

(xv) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Yn dilyn y cais i estyn yr adeilad yn Goodsheds, a allai'r Cyngor egluro'r trefniant ariannol rhwng y datblygwr, y Cyngor a Chymdeithas Tai Newydd?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd unrhyw drefniant ariannol rhwng y datblygwr a Chymdeithas Tai Newydd yn fater a oedd yn gyfrinachol i'r partïon hynny am resymau masnachol.

O ran y Cyngor, cafodd safle Goods Sheds ei farchnata a'i waredu drwy brydles hir i DS Properties (Goods Sheds) Limited yn unol â chofnod Cabinet C3416(2) yn dilyn cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2017. Roedd y trefniant ariannol yn gysylltiedig â thrafodion y tir yn gyfrinachol am resymau masnachol.

(xvi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

A ellir rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch sefyllfa'r Cyngor o ran y Parc Sgrialu yn y Knap, y cyllid angenrheidiol a'r raddfa amser i'w gwblhau?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Roedd y Cyngor yn dal i fod wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd sgrialu o ansawdd ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys y parc sgrialu yn y Knap. Ac ystyried llwyddiant Prydain yng nghystadlaethau Bwrdd Sgrialu'r Gemau Olympaidd diweddar, roedd hi'n debygol iawn y byddai'r gamp yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn y blynyddoedd nesaf.

Yn ddiweddar roedd swyddog wedi cyfarfod ag ymddiriedolwyr Cronfa Goffa Richard Taylor a phartïon eraill â diddordeb i drafod dyfodol y parc. Yn y cyfarfod hwn, cadarnhawyd y byddai'r holl waith rhesymol y byddai angen ei wneud ar y safle er mwyn parhau i'w gadw ar agor yn cael ei gyflawni, ac y ceid ymdrechion ar yr un pryd i sicrhau cyfleuster parhaol newydd yn lle'r cyfleuster presennol.

Roedd ymddiriedolwyr Cronfa Goffa Richard Taylor yn awyddus i helpu i godi arian ar gyfer parc newydd, a byddai'r Cyngor yn ceisio cefnogi'r ymdrechion hyn, fel yr oedd wedi gwneud o'r blaen, gan obeithio y byddai modd adeiladu parc newydd yn y dyfodol.

(xvii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Ystyrir bod Stad Buttrills bellach ymhlith ardaloedd mwyaf difreintiedig y Barri. Mae'r cyfleusterau chwarae wedi dirywio i'r fath raddau fel mai'r unig beth sydd wedi bod ar gael dros y deng mlynedd diwethaf yw ffrâm sleid fechan wedi rhydu a dwy siglen sy'n aml wedi torri. Darparwyd cyllid ar gyfer y parc, ond flynyddoedd yn ddiweddarach does dim byd wedi digwydd o ran y gwaith gosod. Ar yr un pryd, mae

cenhedlaeth o blant wedi tyfu i fyny heb gyfleusterau chwarae yn disgwyl iddo gael ei adnewyddu. A allwch chi gadarnhau ei ddyddiad cwblhau?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd mwyafrif yr offer yn yr ardal chwarae wedi cael eu gosod ym 1993. Cafwyd mân waith uwchraddio yn 2004 pan osodwyd rhai offer nwydd, a throshaen.

Cydnabuwyd bod yr offer yn y lleoliad o ddyluniad hŷn a bod cynlluniau ailwampio yn cael eu harfarnu a'u hystyried yn flynyddol ar sail risg, defnydd a lefel y cyllid a oedd ar gael. Byddai'r tîm yn ailwerthuso'r safle yn y cylch nesaf o asesiadau, ond dyfarnwyd sgôr risg isel i ganolig ar gyfer y safle yn yr arolygiad diweddaraf, a oedd yn golygu bod mwy o angen am waith mewn ardaloedd chwarae eraill na'r safle neilltuol hwn - Parc Sgrialu'r Knap, er enghraifft.

Yn ddelfrydol, hoffai'r Cyngor gael amserlen i ailosod offer ei holl ardaloedd chwarae, ond yn anffodus doedd ganddo ddim digon o gyllid cyfalaf i wneud hynny.

(xviii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Mae Dyffryn Fferm Wen wedi ffynnu i greu Hafan i Fywyd Gwyllt ond mae'r nant sy'n llifo i lawr i'r system rheoli llifogydd wedi cael ei hesgeuluso ers iddo droi'n ardal gyhoeddus, a chyn hynny. A all y Cyngor weithio gyda Dŵr Cymru ac efallai gwahodd Grŵp Afonydd Caerdydd i ddatblygu cynllun i wella ardal y nant?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Yn anffodus nid oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i helpu i ddatblygu cynllun i wella coridor Afon Tregatwg ar hyn o bryd oherwydd ymrwymiadau parhaus i fynd i'r afael â llifogydd ledled y Fro. Serch hynny, byddai'r Cyngor yn cefnogi ac yn annog unrhyw grwpiau a chanddynt ddiddordeb yn y materion hynny, a gwybodaeth amdanynt, gan gynnwys Grŵp Afonydd Caerdydd, i gyflwyno cynigion manwl a hyfyw, ynghyd â chynllun gweithredu i annog bywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar hyd coridorau cwrs dŵr allweddol, fel yr un yn Nyffryn Fferm Wen. Roedd y Cyngor bob amser yn awyddus i weithio gydag unrhyw grwpiau lleol a oedd yn ceisio gwella amgylchedd Bro Morgannwg.

(xix) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Nawr bod y cychod wedi cael eu symud ymaith, pa gynlluniau sydd gan y Cyngor ar gyfer yr Hen Harbwr?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Y prif ffocws bellach ar gyfer Hen Harbwr y Barri oedd caniatáu i natur ffynnu yn yr ardal, yn rhydd rhag unrhyw risg o lygredd amgylcheddol o gychod wedi'u gadael. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wrth ei fodd fod y Cyngor wedi manteisio ar y

cyfle i gael gwared â hen gychod o'r harbwr ac wedi gallu gwella diogelwch ac ymddangosiad yr ardal, gan gael gwared â ffynonellau llygredd posibl ar yr un pryd.

(xx) **<u>Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)</u>**

A yw'r Cyngor o'r farn ei bod hi'n dderbyniol gorfod aros 8 wythnos i gasglu eitemau gwastraff swmpus am dâl, ac onid yw hyn yn cynyddu achosion o dipio'n anghyfreithlon? Sut allwch chi wella'r gwasanaeth hwn sy'n cael ei gynnig am dâl?

**<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth</u>**

Gallai'r galw am y gwasanaeth eitemau gwastraff swmpus amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda'r galw yn cyrraedd uchafbwynt mewn rhai lleoliadau, ond ar hyn o bryd roedd yn rhaid aros cyfartaledd o 4-5 wythnos am wasanaeth, a oedd yn gyson â safon gwasanaeth arferol y Cyngor.

Roedd y gost am gasglu - £20 am 3 eitem a £5 am bob eitem arall ar ôl hynny, hyd at uchafswm o 5 eitem fesul casgliad (hyd at £30), yn cyfrannu at gost y gwasanaeth, ond nid oedd yn talu'n llawn amdano.

Gallai cwsmeriaid hefyd fynd â'u heitemau eu hunain i un o ddwy Ganolfan Ailgylchu'r Cyngor, y naill ar Ystâd Fasnach yr Iwerydd a'r llall yn Llandŵ, yn rhad ac am ddim. Fel arall gellid defnyddio cwmni cofrestredig preifat neu elusen sy'n casglu offer i'w hailddefnyddio.

Yn debyg i'r sefyllfa mewn llawer o Gynghorau eraill, roedd gyrwyr yn brin ar hyn o bryd, ac roedd nifer y cerbydau arbenigol yr oedd eu hangen ar gyfer y gwasanaeth yn gyfyngedig o fewn y Cyngor. Roedd hi'n annhebygol felly y gellid cynyddu adnoddau i leihau amseroedd aros ar hyn o bryd, ond gellid parhau i adolygu hyn a'i ystyried os bydd yr amseroedd aros yn y dyfodol yn gyson hwy na safonau gwasanaeth arferol y Cyngor.

(xxi) **<u>Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)</u>**

Beth all y Cyngor ei wneud i sicrhau diogelwch ymwelwyr yn dilyn yr achosion diweddar lle cafodd cerbydau eu gyrru ar y promenâd ac ar y traeth?

**<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth</u>**

Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw risg i'r cyhoedd wedi'i hachosi gan y weithred anghyfrifol pan aeth car ar y promenâd drwy'r rhwystr ac i'r traeth. Roedd yr heddlu wedi ymdrin â'r mater yn brydlon.

Roedd y rhwystr hwn ar agor i ganiatáu mynediad i gefn y Lloches Orllewinol ac i gerbydau cludo ollwng nwyddau i'r busnesau amrywiol a oedd wedi'u lleoli o dan y lloches ac ar hyd y promenâd.

Mae swyddogion yn adolygu'r trefniadau mynediad cyfredol, ond nid oeddent o'r farn fod y trefniadau hynny, sydd wedi bod yn weithredol ers blynyddoedd lawer, eu hunain yn anniogel. Roedd hi'n anodd rhoi mesurau ar waith i gyfrif am bob math o ymddygiad, ac ni fyddai am i unrhyw fesurau rheoli fod yn anghymesur â'r broblem dan sylw, oherwydd gallai hynny amharu ar fasnachwyr sy'n defnyddio'r fynedfa yn rheolaidd.

(xxii) **Cwestiwn gan Mrs. G. Sims-Williams**

Gyda pharch, esboniwch sut y gwnaethoch ddatgan argyfwng hinsawdd, cyn penderfynu y byddai 100 erw o dir ffermio/dolydd blodau yn y Fro yn cael eu claddu o dan goncrit? Wir yr - hoffwn ichi egluro. Dydw i ddim yn deall y rhesymeg.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Gan dybio bod y cwestiwn yn gysylltiedig â datblygiad Model Farm, roedd nifer o atebion wedi cael eu rhoi yn y cyfarfod i bwyntiau tebyg iawn. Yn gryno, pan fyddai ceisiadau am ddatblygiadau newydd yn cael eu cyflwyno, roedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried y cynigion, gan roi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol o bwys.

Nid oedd y ffaith bod argyfwng hinsawdd wedi'i ddatgan yn golygu y gallai'r Cyngor anwybyddu ei gyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ynghylch cynigion am ddatblygiadau newydd. Yn yr un modd, nid oedd y datganiad ynghylch argyfwng hinsawdd yn golygu y dylid gwrthod pob cynnig am ddatblygiad yn syth. Roedd yn golygu ystyried cynigion gan roi sylw i'r holl ffactorau perthnasol, a tharo cydbwysedd.

(xxiii) **Cwestiwn gan Ms. A. Maidment**

Pam ydych chi'n mynd i ddifrodi tir ffermio amhrisiadwy. Dylech warchod ein bywyd gwyllt. Llygredd, mwy o filltiroedd o ffyrdd. Beth sy'n bod efo chi bobl?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet, gyda pharch, y sawl a ofynnodd y cwestiwn i'w ymateb i gwestiwn tebyg a ofynnwyd gan Mrs.Sims-Williams yn gynharach yn y cyfarfod.

(xxiv) **Cwestiwn gan Mrs. A. Reeves**

Pam ydych chi'n dinistrio Model Farm? Mae'n llawn bywyd gwyllt, a dylem fod yn gwarchod ein hamgylchedd yn hytrach na'i orchuddio â choncrit. Mae digonedd o safleoedd eraill i adeiladu arnynt - cadwch rywfaint o dir glas i'n plant. Ni fydd dim ar ôl ac ystyried y graddau yr ydych yn rhoi caniatâd cynllunio - mae'n sefyllfa mor drist. Rwy'n dechrau colli pob ffydd yng Nghyngor y Barri, ac rydw i wedi byw yma ers 56 o flynyddoedd.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Unwaith eto, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet, gyda pharch, y sawl a ofynnodd y cwestiwn i ymateb blaenorol a roddwyd i gwestiwn tebyg yn y cyfarfod.

(xxv) **Cwestiwn gan Mrs. A. Westerland**

Mae'r graffiti ar lawer o adeiladau yn y Barri, yn enwedig ar Heol Holton, yn edrych yn hyll iawn. Deallaf fod hyn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, ac mai'r penderfyniad oedd nad oedd y drwgweithredwr yn atebol, ac nad oedd yn ofynnol iddo lanhau ei waith. Deallaf fod y cyfrifoldeb dros gwblhau'r gwaith glanhau wedi'i drosglwyddo'n ôl i'r busnesau yr effeithiwyd arnynt, ac y byddai'r Cyngor yn cynnig cyngor. Fodd bynnag, mae sawl eiddo dan sylw yn wag. A all y Cyngor roi'r newyddion diweddaraf inni am unrhyw gynnydd wrth gefnogi'r busnesau yr effeithiwyd arnynt? A beth yw'r sefyllfa o ran yr eiddo gwag? I gloi, a all y cyhoedd gael esboniad pam nad yw'r drwgweithredwr yn ymwneud â'r gwaith o helpu i lanhau'r adeiladau a ddifrodwyd ganddo?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd y Cyngor a'r Heddlu yn parhau i weithio gyda busnesau ar y graffiti sy'n achosi problem yn ardal Heol Holton, o ran cael gwared â'r graffiti a datrysiadau diogelwch/ataliol i'w gweithredu o hyn allan. Roedd swyddogion ar ganol canfod pwy oedd yn berchennog ar yr eiddo gwag er mwyn trafod problemau graffiti. Roedd trafodaethau hefyd yn parhau, ac wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf, gyda'r nod o weithredu rhaglen waith er mwyn cynorthwyo i gael gwared â graffiti o eiddo preifat.

Yn sgil rheolau diogelu data yn gysylltiedig â throseddwyd unigol, nid oedd yr Aelod Cabinet yn gallu ateb cwestiynau yn gysylltiedig ag unigolion.

(xxvi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Mae gwybod erbyn pa ddyddiad y mae angen cyflwyno cwestiynau i'r Cyngor Llawn yn peri dryswch mawr. A allwch esbonio hyn, a phennu dyddiad ac amser swyddogol ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod hwn er mwyn annog mwy o breswylwyr i ofyn cwestiynau?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau.**

Ym mharagraff 3.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, nodir y dulliau amrywiol y gall aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio i gymryd rhan ym musnes y Cyngor. Roedd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach ym mharagraff 4.17 yng Nghyfansoddiad y Cyngor a oedd yn trafod 'Cwestiynau gan y Cyhoedd' yng Nghyfarfodydd Llawn y Cyngor.

Roedd gwybodaeth ar gael ar Wefan Gyhoeddus y Cyngor, a esboniai fod yn rhaid derbyn cwestiynau gan y cyhoedd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Er enghraifft, ar gyfer y cyfarfod hwn ar 20 Medi, y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau oedd hanner nos ddydd Sul, 5 Medi, gan ganiatáu deg diwrnod gwaith o ddydd Llun 6 - dydd Gwener 17.

Fodd bynnag, byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r sylwadau a gyflwynwyd yn y cwestiwn, yn unol â'r gwaith parhaus yn gysylltiedig â chyfranogiad y cyhoedd.

(xxvii) **Cwestiwn gan Mrs. J. Hartwell**

A wnaiff Bro Morgannwg roi ystyriaeth o ddifrif i ddarpariaeth o natur Aire ar gyfer cerbydau modur ar Ynys y Barri? Byddai pen uchaf Maes Parcio Penrhyn Nell yn berffaith. Mae llawer o Gynghorau ledled y DU bellach yn elwa ar fanteision darpariaeth o'r fath, a welir yn gyffredin ledled Ewrop. Os caiff ei reoli'n dda bydd yn darparu incwm cyson ac yn denu ymwelwyr i'r dref. Byddai Ynys y Barri yn gyrchfan ardderchog ac ni fyddai'r safle a awgrymir yn amharu ar olygfa unrhyw un, na'u mwynha o'u heiddo. Gofynnir ichi fod yn flaengar a rhoi ystyriaeth ofalus i hyn. Sylwch nad maes gwersylla mo hwn! Bydd arosiadau fel arfer wedi'u cyfyngu i 24/48/72 o oriau, a'r darpariaethau'n amrywio ond bydd gan y goreuon gyflenwad dŵr a safleoedd gwaredu gwastraff cemegol a dŵr llwyd. Mae cysylltiadau cyflenwi trydan hefyd yn dynfa fawr. Fel arfer wedi'u rheoli gan TCC a pheiriannau talu awtomatig a rhwystrau neu weithwyr. Gadewch i ni symud gyda'r oes yn y Barri a'r Fro!

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd y Cyngor yn cynnal adolygiad cyson o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yr oedd yn eu darparu ar bob un o'r safleoedd a reolir ganddo. Roedd unrhyw syniadau i wella'r ddarpariaeth twristiaeth ar safleoedd y Cyngor, gan gynnwys ar Ynys y Barri, yn cael eu croesawu. Roedd y cwestiwn hefyd yn arbennig o berthnasol ac ystyried y cynnydd presennol yn y nifer sy'n mynd ar wyliau gartref.